------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo gynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Mawrth 2021

Amser: 13.30


I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddNHAMG@senedd.cymru


## Rhag gyfarfod preifat (13.30-13.45)

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor at ddibenion diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

## Cyfarfod cyhoeddus (13.45-15.00)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.45)

### 2 Gwaith gwaddol: dyframaethu

(13.45-15.00) (Tudalennau 1 - 10)

James Wilson, Cyfarwyddwr - Cynhyrchwyr Cregyn Gleision Bangor Cyf

Jon Parker, Cadeirydd - Seafish Cymru ac Arweinydd Datblygu Aquaculture Industry Wales Ltd

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

### 3 Papurau i'w nodi

(15.00)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3.1 Ymateb oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i adroddiad y Pwyllgor: Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22**

(Tudalennau 11 - 29)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**3.2 Gohebiaeth oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021**

(Tudalennau 30 - 31)

Dogfennau atodol:

Llythyr

**3.3 Gohebiaeth oddi wrth Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn perthynas â thlodi tanwydd**

(Tudalennau 32 - 33)

Dogfennau atodol:

Llythyr

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitemau 5 a 6 o'r cyfarfod heddiw

(15.00)

## Cyfarfod preifat (15.00-15.40)

## 5 Gwaith gwaddol: dyframaeth - trafod y dystiolaeth a glywyd o dan eitem 2; a thrafod gwaith gwaddol y Pwyllgor ymhellach

## 6 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu)

(Tudalennau 34 - 40)

Dogfennau atodol:

Nodyn cyfreithiol (Saesneg yn unig)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

## Cyfarfod cyhoeddus (15.40–16.30)

## 7 Gwaith gwaddol: pysgodfeydd

(15.40–16.30)

Jim Evans, Cadeirydd – Cymdeithas Pysgotwyr Cymru

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(16.30)

## Cyfarfod preifat (16.30–16.45)

## 9 Gwaith gwaddol: pysgodfeydd – trafod y dystiolaeth a glywyd o dan eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 3.1

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

5 Mawrth 2021

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Chwefror, gydag argymhellion yn deillio o waith craffu eich pwyllgor ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

Isod, rhestraf eich argymhellion ynghyd â'm hymatebion.

**Argymhelliad 1.**

***Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw canfyddiadau'r Tasglu Adferiad Gwyrdd wedi dylanwadu ar ddyraniadau yn 2021-22 a sut. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i ni ar y mater hwn cyn y cynnig cyllideb blynyddol.***

**Derbyn**

Mae ein buddsoddiadau cyfalaf yn ysgogiad allweddol i adeiladu ar gyfer dyfodol gwyrddach, trwy sicrhau bod ein blaenoriaethau seilwaith yn cael eu gosod o fewn ein huchelgeisiau datgarboneiddio a bioamrywiaeth trosfwaol. Wrth wneud hynny, rydym yn cynnal ac yn adeiladu ar y sylfaen a ddarperir trwy'r pecyn buddsoddi £140 miliwn a gyhoeddwyd gennym yng Nghyllideb 2020-21 i helpu i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Wrth adeiladu dyfodol gwyrddach, rydym yn canolbwyntio ar ein blaenoriaethau o ran tai, ymladd yn erbyn newid yn yr hinsawdd, ac ail-fuddsoddi yng nghanol trefi i gynyddu effaith ein buddsoddiad seilwaith i'r eithaf. Mae hyn yn cynnwys £36.8 miliwn ychwanegol ar gyfer tai cymdeithasol, gan fynd â chyfanswm y gyllideb y flwyddyn nesaf i £200 miliwn, a £5 miliwn yn fwy i ddatblygu ein Coedwig Genedlaethol a buddsoddi mewn bioamrywiaeth ehangach. Rydym yn buddsoddi £40 miliwn ychwanegol ar seilwaith addysg, gan gynnwys £5 miliwn ar gyfer y peilot ysgolion carbon sero-net. Byddwn yn parhau i ddatgarboneiddio cludiant, gan roi hwb o £20 miliwn i'r cyllid ar gyfer teithio llesol, a darparu cyfanswm o £274.7 miliwn o fuddsoddiad yn y rheilffyrdd a'r metro.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ym mis Mai 2020, gwahoddais Syr David Henshaw, Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, i arwain Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd. Un o'r tasgau a gyflawnwyd ganddynt oedd nodi blaenoriaethau ar gyfer gweithredu i gyfrannu at ddull gweithredu Llywodraeth Cymru. Cynhaliodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen alwad am gynigion, a gyflwynodd syniadau ar gyfer ymyriadau peilot fel y nodir yn eu hadroddiad *Adferiad Gwyrdd: Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu*, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020. Yr oeddwn wrth fy modd gyda'r ymateb a gawsant, gyda 168 o gynigion yn cael eu cyflwyno, ar wahanol gamau datblygu.

Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r cyfleoedd sy'n deillio o waith y Grŵp fel rhan o ddull gweithredu ehangach Llywodraeth Cymru o ran Adferiad Gwyrdd. Fel cam cyntaf, rwyf wedi cytuno i ddyrannu'r cyllid sydd ar gael o gyllideb 2020/2021 tuag at y cynigion hynny, sydd wedi'u datblygu'n ddigon da i alluogi gweithredu erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae fy swyddogion yn gweithio i gyhoeddi'r contractau a'r cyhoeddiadau angenrheidiol maes o law.

**Argymhelliad 2.**

***Dylai Llywodraeth Cymru fyfyrio ar ganfyddiadau adroddiadau diweddar a chyngor diwygiedig y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd cyn cwblhau'r gyllideb. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted â phosibl, a chyn y cynnig cyllideb blynyddol.***

**Derbyn mewn egwyddor**

Gosodais Reoliadau Drafft Newid yn yr Hinsawdd (Cymru) 2021 yn y Senedd ar 9 Chwefror, a byddant yn destun pleidlais ganol mis Mawrth. Mae'r targedau a'r cyllidebau carbon a geir yn y rheoliadau drafft yn dilyn argymhellion y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. Fodd bynnag, nid ydym wedi derbyn pob manylyn o lasbrint y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd o reidrwydd ar gyfer y ffordd y mae Cymru'n cyrraedd y targedau a'r cyllidebau carbon hynny. Mater i bob Llywodraeth yng Nghymru yw penderfynu hynny gan ei bod yn cyhoeddi cynllun lleihau allyriadau ar gyfer pob cyfnod cyllideb carbon o 5 mlynedd. Mae angen y cynllun nesaf i gwmpasu Cyllideb Garbon 2 (2021-25) a chaiff ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2021. Ein nod yw cysoni datblygiad pob cynllun â datblygu cyllidebau ariannol yn y dyfodol er mwyn helpu i lywio dyraniadau yn y dyfodol, y gallai'r Pwyllgor ddymuno craffu arnynt maes o law. Fodd bynnag, mae'r graddau y gallwn ddyrannu arian ar gyfer pob cyfnod cyllideb garbon yn dibynnu ar ganlyniad, hyd ac amseriad Adolygiadau o Wariant Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'r dystiolaeth ar ble orau i dargedu buddsoddiad o gymharu â defnyddio ysgogiadau eraill y llywodraeth megis deddfwriaeth i gyflawni'r targedau Carbon hyn.

Fel y nododd y Llywodraeth yn ei naratif cyllidebol, elfen graidd o'n dull eleni yw ein hymgyrch dros ddyfodol gwyrddach gyda'n ffocws ar dai, mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, a buddsoddi yng nghanol ein trefi a thrafnidiaeth gyhoeddus. Mae buddsoddi yn y blaenoriaethau hyn yn adlewyrchu rôl bwysig ein buddsoddiad cyfalaf hefyd wrth gefnogi gwaith adeiladu a swyddi ehangach, gyda'r bwriad y bydd dyraniadau datgarboneiddio arfaethedig yn ysgogi swyddi gwyrdd. Yng Nghyllideb 2020-21, darparwyd £140 miliwn o gyllid cyfalaf mewn pecyn buddsoddi sydd â'r nod o helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Yn 2021-22, bydd y rhan fwyaf o'r arian hwn yn cael ei gynnal mewn llinellau sylfaen adrannol a byddwn yn dyrannu bron i £80 miliwn mewn cyllid cyfalaf ychwanegol i gefnogi gweithgareddau sy'n hyrwyddo datgarboneiddio'n uniongyrchol ac yn gwella ein bioamrywiaeth gyfoethog ymhellach, ochr yn ochr â'r camau rydym yn eu cymryd fel rhan o'n buddsoddiadau ehangach. Mae'r buddsoddiad hwn yn ategu'r ymrwymiadau ehangach rydym yn eu gwneud i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gan gynnwys parhau â'r dull cynhwysfawr a nodir yn y Cynllun Cyflawni Carbon Isel presennol a ddisgrifiodd ein dull o fodloni Cyllideb Garbon 1 (2016-2020).

**Argymhelliad 3.**

***Mae'n rhaid i'r Gweinidog ymrwymo i sicrhau:***

- ***bod gan yr ail Gynllun Cyflawni Carbon Isel asesiad cysylltiedig o'i oblygiadau ariannol, gan gynnwys costau a buddion, ac asesiad o effaith garbon pob polisi neu ymyriad; a***
- ***bod effaith garbon polisïau yn y Cynllun yn ddigon gyda'i gilydd i gyflawni'r drydedd gyllideb garbon.***

**Derbyn mewn egwyddor**

O ran manteision a chostau ariannol: Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i ni nodi'r polisïau a'r cynigion ar gyfer bodloni'r gyllideb garbon dan sylw ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i ni asesu costau ac effaith pob ymyriad unigol. Mae hyn yn adlewyrchu cymhlethdod y system, sydd â lefel uchel o ryngddibyniaeth, sy'n ei gwneud yn anodd priodoli costau a manteision i un weithred yn unig. Yn yr un modd ac nad yw llywodraethau'r Alban a'r DU yn mesur ymyriadau unigol, bydd ail gynllun cyflawni Cymru, felly, yn nodi sut y mae'r Llywodraeth a Chymru gyda'i gilydd yn bwriadu cyflawni'r gyllideb nesaf. Yn ogystal, er nad yw'n ofyniad statudol, byddwn yn cyhoeddi arfarniad cynaliadwyedd i gefnogi ein hail Gynllun Cyflawni.

O ran effaith carbon - Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cynllun Cyflawni ganolbwyntio ar y gyllideb garbon dan sylw, gan gydnabod y bydd angen i bob gweinyddiaeth newydd egluro sut y bydd yn cyflawni'r gyllideb garbon dan sylw. Bydd Cynllun Cyflawni Carbon Isel 2 yn canolbwyntio ar Gyllideb Garbon 2. Rydym yn datblygu offeryn i fesur effaith carbon y polisïau a'r cynigion a nodir yn y cynllun ac i brofi a yw'r rhain yn ddigonol i gyflawni'r gyllideb. Mae'r offeryn cymhleth hwn wrthi'n cael ei ddatblygu gyda'r nod iddo fod yn rhan annatod o feintioli'r ail gynllun cyflawni.

Mae'r gwaith uchod yn dod o fewn y gofynion presennol o ran datblygu ein Cynllun Cyflawni Carbon Isel nesaf.

**Argymhelliad 4.**

***Dylai'r Gweinidog egluro a yw canlyniad y prosiect treialu i amcangyfrif effaith garbon penderfyniadau gwariant yn 2020-21 wedi dylanwadu ar ei dull o ddyrannu'r gyllideb yn 2021-22 a sut y gwnaed hynny.***

**Derbyn**

Mae'r gwaith a wnaed gan yr Uned Ymchwil i Economi Cymru, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r gyllideb ddrafft, yn rhoi amcangyfrif o'r allyriadau cyflenwyr sy'n gysylltiedig â nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu prynu drwy gyllidebau Llywodraeth Cymru.

Roedd cyhoeddi'r dadansoddiad hwn yn enghraifft archwiliadol heb os o'r gwaith sy'n cael ei wneud. Ochr yn ochr â'r Gyllideb derfynol, y bwriad yw ymestyn y dadansoddiad hwn i gynnwys holl Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag ystyried gwariant cyfalaf hefyd.

O ystyried amseriad y cyhoeddiadau hyn, nid ydynt wedi dylanwadu'n uniongyrchol ar ddyraniadau cyllideb yn 2021-22.

Fodd bynnag, rydym wedi cael cyngor pellach yn ddiweddar gan Bwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, sy'n glir ar sail y dystiolaeth bresennol fod yna lwybr credadwy, ymarferol a fforddiadwy tuag at sero net i Gymru erbyn 2050.

Ochr yn ochr â'r wybodaeth honno, byddwn yn ystyried yr wybodaeth a gyflwynir yn yr adroddiadau prosiect peilot a'r rhai wedi'u diweddaru gan yr Uned Ymchwil i Economi Cymru hefyd, i benderfynu beth mae'n ei olygu i'n cynlluniau cyllidebol yn y dyfodol.

Serch hynny, ni fydd y math hwn o asesiad yn modelu allyriadau nac arbedion carbon sy'n gysylltiedig â chanlyniadau sy'n deillio o'r gwariant hwn.

Mae'n bwysig hefyd fod adrannau, wrth ddatblygu eu cynigion gwariant, yn cynnal asesiad cynhwysfawr o'r effaith garbon ehangach sy'n gysylltiedig â'r polisïau hynny, er mwyn sicrhau ein bod yn glir ynghylch effeithiau meintiol y dewisiadau a wnawn am yr argyfwng hinsawdd.

**Argymhelliad 5.**

***Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o fanylion am:***

- ***sut y defnyddir y dyraniad ychwanegol i Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru;***
- ***sut y bydd yn cyfrannu at gyflawni sector cyhoeddus di-garbon net ac yn cynyddu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol i 1GW erbyn 2030; a'r***
- ***cynnydd a wnaed tuag at darged 2030 hyd yma.***

**Derbyn**

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru (WGES) yn rhoi cymorth i sefydliadau'r sector cyhoeddus a chymunedau i'w helpu i ddatblygu cynlluniau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Drwy'r Gwasanaeth rydym wedi buddsoddi bron i £16 miliwn eleni mewn prosiectau ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni ac wedi ymrwymo £9.3 miliwn arall. Ar hyn o bryd mae gan y Gronfa Ynni Lleol fwy na £5 miliwn ar gael i'w fenthyg i gymunedau i ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy, gydag arian ar gael i'r sector cyhoeddus drwy Raglen Ariannu Cymru.

Mae'r Gwasanaeth yn arwain y gwaith o ddatblygu strategaethau ynni rhanbarthol gyda phedwar rhanbarth Cymru i ddeall y trawsnewid mewn pŵer, gwres a thrafnidiaeth sydd ei angen i gyflawni ein huchelgais ar gyfer Sero Net. Bydd y cynlluniau ynni rhanbarthol yn helpu rhanbarthau i fanteisio ar y cyfleoedd o'r trawsnewid hwn. Bydd y Gwasanaeth yn parhau i gefnogi rhanbarthau y flwyddyn nesaf yng ngham cyflawni'r strategaethau.

Mae'r arian ychwanegol yn cefnogi cynlluniau cyflawni wedi'u huwchraddio ar gyfer 2020-2022, a fydd yn galluogi'r sector cyhoeddus i gymryd cyfeiriad strategol ar ynni, gan ddatblygu capasiti a gallu ledled Cymru. Bydd refeniw ychwanegol yn cefnogi'r sector cyhoeddus i gyflawni blaenoriaethau strategol Sero Net; Caffael, Symudedd a Thrafnidiaeth, Adeiladau a Defnydd Tir. Bydd cyfalaf ychwanegol yn cefnogi llif estynedig o brosiectau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Rwyf wedi sicrhau bod £1.3 miliwn ar gael ar gyfer cynllun peilot i gefnogi newid i Gerbydau Allyriadau Isel Iawn ar draws y sector cyhoeddus. Rwyf wedi darparu £3 miliwn ychwanegol hefyd ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy cymunedol, i helpu i ddiwallu'r angen am gymorth pellach yn absenoldeb tariffau Llywodraeth y DU.

Drwy'r Gwasanaeth rydym yn ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer darparu datblygiad ynni adnewyddadwy enghreifftiol ar raddfa fawr ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, gyda rôl gryfach i'r sector cyhoeddus, a allai ddarparu dull braenaru ar gyfer prosiectau eraill ar dir cyhoeddus, gan gyflawni nodau perchnogaeth leol. Rydym yn ymgysylltu â datblygwyr yn y sector preifat hefyd i helpu i gefnogi cydberchnogaeth prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr ledled Cymru. Bydd arian ychwanegol yn helpu cymunedau i gael cyngor proffesiynol ar ffurfio partneriaeth mewn prosiectau mwy. Mae prosiectau ar y cyd o'r fath gyda chymunedau, busnesau a chyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cynnig cyfle i gynyddu graddfa'r cynhyrchu mewn perchnogaeth leol, yn dilyn diwedd y Tariff Cyflenwi Trydan.

Rydym yn ystyried dyfodol Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru y tu hwnt i 2022, gan adolygu ei effeithiolrwydd ac ystyried yr angen yn y dyfodol yng ngoleuni ein huchelgais Sero Net presennol a'r cyngor i Gymru gan y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd i sicrhau gostyngiad o 63% mewn allyriadau erbyn 2030.

Mae Cymru 83% o'r ffordd tuag at gyrraedd ei tharged perchnogaeth leol o 1GW erbyn 2030 eisoes gyda 825 MW o gapasiti ynni adnewyddadwy mewn perchnogaeth leol. Mae dros hanner ein Hawdurdodau Lleol wedi datgan argyfwng hinsawdd ac maent naill ai wedi cyhoeddi cynlluniau gweithredu lleihau allyriadau neu mae ganddynt gynlluniau ar y gweill. Bydd cyrraedd sero net erbyn 2030 yn her aruthrol. Fodd bynnag, wrth i ni ddod drwy bandemig Covid, mae'r brwdfrydedd i gydweithio ac ysgogi adferiad gwyrdd yn fy nghalonogi'n fawr.

**Argymhelliad 6.**

***Dylai'r Gweinidog fyfyrio ar ba un a fydd y cynnydd yn y dyraniad cyllideb ar gyfer tlodi tanwydd yn ddigonol i sicrhau cynnydd ar y lefel a'r cyflymder sy'n ofynnol i gyrraedd y targedau tlodi tanwydd arfaethedig a nodir yn y Cynllun newydd. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted â phosibl, a chyn y cynnig cyllideb blynyddol.***

**Derbyn mewn egwyddor**

Byddaf yn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Tlodi Tanwydd newydd ar 2 Mawrth ac yn gwneud datganiad yn y Senedd.

Un o'r camau gweithredu fydd cynnal ymgynghoriad ar y fersiwn nesaf o'r Rhaglen Cartrefi Cynnes yn ddiweddarach eleni. Mae modelu ychwanegol i bennu lefel y gweithgarwch sydd ei angen i gyflawni ein targedau ar gyfer 2035 yn cael ei gomisiynu i lywio'r ymgynghoriad.

Mae gwaith wedi dechrau hefyd i gyhoeddi amcangyfrifon newydd o dlodi tanwydd yn 2021/22. Rydym yn disgwyl y bydd lefel amcangyfrifedig tlodi tanwydd wedi cynyddu'n sylweddol yn 2020 a bydd y buddsoddiad ychwanegol a wnaed gan Lywodraeth Cymru yn 2021/22 yn cynnal y lefelau presennol o weithgarwch drwy'r Rhaglen Cartrefi Cynnes.

Hyd nes y bydd y sylfaen dystiolaeth wedi'i diweddaru, mae'n amhosibl dweud a fydd cynnydd yn y dyraniad cyllideb ar gyfer tlodi tanwydd yn ddigonol i gyflawni cynnydd ar y lefel a'r cyflymder sydd eu hangen i fodloni'r targedau tlodi tanwydd arfaethedig. Bydd cyngor ynglŷn â'r buddsoddiad sydd ei angen i gyrraedd y targedau erbyn 2035, ac fel asesiad o sut mae hyn yn cymharu â dyraniad cyllideb presennol y Llywodraeth, yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor pan fydd ar gael.

Cynigiwyd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o £1 miliwn o refeniw a £4 miliwn o gyfalaf yng nghyllideb ddrafft 2021/22.

**Argymhelliad 7.**

***Dylai'r Gweinidog egluro:***

- ***cost cyflawni gwelliannau effeithlonrwydd ynni cartref trwy Nyth yn 2020-21; a'r***
- ***dyraniadau arfaethedig yn 2021-22 i Arbed a Nyth, a'r nifer amcanol o aelwydydd a fydd yn derbyn gwelliannau i'r cartref o dan bob cynllun.***

**Derbyn**

Mewn ymateb i'r heriau sy'n wynebu aelwydydd yn sgil y pandemig byd-eang parhaus, mae cyllideb Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd wedi'i chynyddu £5 miliwn, ac mae 80% ohoni wedi'i dyrannu i fuddsoddiad cyfalaf mewn gwelliannau effeithlonrwydd ynni yn y cartref a gyflawnir drwy'r Rhaglen Cartrefi Cynnes. Ar y sail hon, rydym yn disgwyl buddsoddiad cyfalaf o £27 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn 2021/22, a chyllid o £8.7 miliwn gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.

Disgwylir i'r alldro a ragwelir ar gyfer Cynllun Nyth yn 2021/21 fod yn £18.5 miliwn.

Rhagwelir y bydd cyfanswm y gyllideb gyfalaf o £35.7 miliwn yn 2021/22 o fudd i ddim llai na 5,500 (1,080 Arbed a 4,420 Nyth) o aelwydydd yn ystod y flwyddyn, heb gynnwys y miloedd o aelwydydd sydd fel arfer yn elwa ar gyngor effeithlonrwydd ynni cartref a ddarperir drwy gynllun Nyth. Dim ond tan fis Hydref 2021 y cynhwysir amcanestyniadau ar gyfer Arbed, hyd at ddiwedd y contract presennol.

Er bod y proffil cyflawni hwn ychydig yn is na'r cyfartaledd blynyddol deng mlynedd ers i'r Rhaglen Cartrefi Cynnes ddechrau yn 2009/2010, disgwylir i'r ddarpariaeth wella dros fisoedd yr haf wrth i fesurau cadw pellter cymdeithasol gael eu llacio'n raddol, ond gallent fod yn isel unwaith eto yn ystod gaeaf 21/22. Rydym yn disgwyl y bydd lefelau gweithgarwch yn ailddechrau yn 2022/23 yn amodol ar gyflwyno brechlynnau'n llwyddiannus a mwy o hyder ymhlith y cyhoedd. Neilltuwyd £1 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol i ariannu cynllun peilot i wella ein gwasanaethau cynghori, gweithio ar gynllun cydnerthedd y gaeaf a modelu amcangyfrifon tlodi tanwydd a chyflenwi.

Buddsoddiad cyfalaf o £27 miliwn, ynghyd ag £8.7 miliwn o gyllid Ewropeaidd yn 2021/22 i ddarparu'r Rhaglen Cartrefi Cynnes. Fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor yn ei argymhellion tlodi tanwydd, cyflwynwyd hyblygrwydd rhwng cynlluniau Nyth ac Arbed er mwyn sicrhau y cyflawnir yr alldro llawn a ragwelir.

**Argymhelliad 8.**

***Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at gyflawni'r camau 'tymor byr' a nodir yn y Cynllun Aer Glân.***

**Derbyn**

Cyhoeddwyd y Cynllun Aer Glân i Gymru - Awyr Iach, Cymru Iach ar 6 Awst 2020. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o gamau gweithredu. Pennwyd camau gweithredu tymor byr i'w cwblhau erbyn diwedd tymor y Senedd hon. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu'n ymwneud â chyhoeddi canllawiau ac ymgynghoriadau newydd ar amrywiaeth o bynciau. Disgwylir i'r camau gweithredu tymor canolig gyflawni yn ystod tymor y chweched Senedd a disgwylir i gamau gweithredu hirdymor gyflawni gwelliannau hyd at 2030.

Mae deuddeg cam gweithredu wedi'u dosbarthu fel rhai tymor byr:

Cam Gweithredu 4 - Rheoli Digwyddiadau Ansawdd Aer: Cytunwyd ar yr arian a rhoddwyd cymeradwyaeth y Gweinidog i'r gwasanaeth newydd. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal gwaith caffael ym mlwyddyn ariannol 21/22, gyda disgwyliad i'r contract gael ei osod yn hydref 2021. Ar hyn o bryd mae contractwr a gweithgynhyrchwyr a gafodd eu caffael gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwerthuso opsiynau ar gyfer systemau monitro ansawdd aer er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon cadarn i weithio mewn amodau maes cyn caffael yr offer.

Cam Gweithredu 6 - Gwella Rheoli Ansawdd Aer Lleol drwy Ddeddf Aer Glân i Gymru: Nodir ein dull o gyflawni hyn yn y Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru), a gyhoeddwyd ar 13 Ionawr 2021.

Cam Gweithredu 7 - Fframwaith Parthau Aer Glân: Mae'r ddogfen fframwaith ddrafft yn cael ei hadolygu gan adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru a phartneriaid allanol ar hyn o bryd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r Fframwaith Parthau Aer Glân yn ystod y gwanwyn eleni.

Cam Gweithredu 18 - Papur Gwyn ar Ddeddf Aer Glân: Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar 13 Ionawr 2021.

Cam Gweithredu 19 - gwefan Ansawdd Aer yng Nghymru: Mae swyddogion yn parhau i ddatblygu cynigion i wella gwefan Ansawdd Aer yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n well, bod ganddi ddiwyg newydd a'i bod yn hawdd ei defnyddio. Bwriedir cwblhau cam cychwynnol o ddiweddariadau erbyn diwedd y flwyddyn.

Cam Gweithredu 20 - Diwrnod Aer Glân: Y llynedd, gwnaethom gefnogi gweithgarwch Diwrnod Aer Glân a oedd yn canolbwyntio ar ail-adeiladu Cymru well. Roedd y digwyddiad yn gyfle gwerthfawr i ni i gyd feddwl am sut y gallwn addasu ein harferion a'n hymddygiad i leihau'r llygredd aer a achosir gan weithgareddau bob dydd. Mae swyddogion yn datblygu cynigion ar gyfer gweithgarwch pellach mewn perthynas â Diwrnod Aer Glân 2021.

Cam Gweithredu 31 - Papur Gwyn Amaethyddiaeth yng Nghymru: Cyhoeddwyd Papur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru) ar 16 Rhagfyr.

Cam Gweithredu 32 - Cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol newydd ar ffermio dwys: Caiff hyn ei gyflwyno yn gynnar yn nhymor nesaf y Senedd.

Cam Gweithredu 42 - Canllawiau cynllunio ar gyfer ansawdd aer, sŵn a seinwedd i gynllunwyr Awdurdodau Lleol: Disgwylir i ymgynghoriad ar Nodyn Cyngor Technegol wedi'i ddiweddaru gael ei gynnal eleni yn ystod tymor nesaf y Senedd. Bydd amserlenni cyflawni ar gyfer y canllawiau terfynol yn dibynnu ar ymatebion. Fodd bynnag, ein nod yw cyhoeddi’r cyfarwyddyd terfynol erbyn diwedd 2021.

Cam Gweithredu 44: Lansio Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru: Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Strategaeth Drafnidiaeth newydd i Gymru ym mis Tachwedd 2020. Daeth yr ymgynghoriad i ben ddiwedd mis Ionawr. Rydym yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn bwriadu cyhoeddi'r Strategaeth derfynol yng ngwanwyn 2021.
Cam Gweithredu 46: Diweddaru canllawiau cyflenwi a dylunio ar gyfer seilwaith cerdded a beicio: Cwblhawyd yr ymgynghoriad yn ystod haf 2020 a chwblhau'r fersiwn derfynol i'w chyhoeddi ddiwedd mis Mawrth 2021.

Cam Gweithredu 47: Cymorth i Awdurdodau Lleol weithredu Teithio Llesol: Mae'r platfform ymgysylltu Ar-lein Terfynol Common Place ar gael bellach i bob awdurdod lleol o fis Tachwedd 2020 ac mae cryn ddefnydd yn cael ei wneud ohono. Mae System Mapio Teithio Llesol ar Fap Data Cymru ar gael i'w defnyddio o fis Tachwedd 2020 ymlaen gyda Cham 2 wedi'i gwblhau ym mis Chwefror 2021. Mae hyfforddiant a chymorth yn cael eu darparu'n barhaus ar y naill a'r llall.

Cam Gweithredu 55: Mesurau rheoleiddio gwell i atal cerbydau rhag troi ar gyflymder segura: Nodir ein dull o gyflawni hyn yn y Papur Gwyn ar y Bil Aer Glân (Cymru), a gyhoeddwyd ar 13 Ionawr 2021.

Cam Gweithredu 56: Cynllun $NO_2$ Diwygiedig: Mae'r amserlen ar gyfer cyflawni cynllun diweddaru $NO_2$ wedi llithro o fis Tachwedd 2020 ar ôl blaenoriaethu ein Papur Gwyn ar y Bil Aer Glân (Cymru). Bwriadwn ymgynghori ar y cynllun ar gyfer y gwanwyn hwn.

Rheoli digwyddiadau ansawdd aer: Cytunwyd ar yr arian a rhoddwyd cymeradwyaeth y Gweinidog i'r gwasanaeth newydd. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal gwaith caffael ym mlwyddyn ariannol 21/22, gyda disgwyliad i'r contract gael ei osod yn hydref 2021. Ceir rhagor o wybodaeth am gyllid yn yr ymateb i Argymhelliad 9 isod.

**Argymhelliad 9.**

***Dylai'r Gweinidog egluro faint o arian a ddyrannwyd yn 2021-22 i gyflawni'r camau a nodir yn y Cynllun Aer Glân.***

***Derbyn***

Mae £1 miliwn o refeniw o £3 mil o gyfalaf wedi'u nodi i gefnogi camau gweithredu yn y Cynllun Aer Glân. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyllid ar gyfer offer monitro ansawdd aer i gefnogi'r gallu i ymateb i ddigwyddiadau.
- Tystiolaeth i lywio Deddf Aer Glân Cymru, galluoedd monitro ac asesu newydd, cyfrifoldebau cyfreithiol am leihau allyriadau'n genedlaethol a mynd i'r afael â gormodiant o nitrogen deuocsid, effeithiau amgylcheddol tân gwyllt, effeithiau a gwersi a ddysgwyd yn sgil COVID-19 a chanllawiau cynllunio newydd ar ansawdd aer, sŵn a seinwedd.
- Cyfathrebu i gefnogi newid cadarnhaol mewn ymddygiad.

Gan ddibynnu ar y llwybr penodol a ddewisir ar gyfer cyflawni ein huchelgais o ostwng allyriadau erbyn 2030 a lleihau cysylltiad y cyhoedd â nhw, amcangyfrifir y bydd cost y camau yn y dyfodol o dan y Cynllun, yn cynnwys camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r cynigion yn y papur gwyn hwn, oddeutu £10 miliwn y flwyddyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu amcangyfrif manylach o'r gost ar gyfer y Cynllun Aer Glân. Bydd hyn yn cwmpasu'r casgliad o ymrwymiadau trawsadrannol a thraws sector. Ein nod yw cwblhau hyn erbyn mis Ebrill 2021. Gan fod y cynllun yn cwmpasu cyfnod o 10 mlynedd, mae angen iddo fod yn hyblyg i addasu i amgylchiadau sy'n newid mewn perthynas â COVID-19, tystiolaeth newydd ac Ymadael â'r UE.

**Argymhelliad 10.**

***Dylai'r Gweinidog egluro lefel y cyllid sydd ar gael i gefnogi cyflwyniad cynllun adfer Covid-19 ar gyfer y diwydiant bwyd a diod, gan gynnwys dyraniadau yng nghyllideb ddrafft 2021-22.***

**Derbyn mewn egwyddor**

Mae cynllun Adfer Covid-19 yn adeiladu ar y strategaeth tymor hwy ac mae adnoddau wedi'u dyrannu'n unol â hynny. Mae dyraniadau'r gyllideb wedi cynnwys cymorth drwy amrywiaeth o Raglenni Llywodraeth Cymru hefyd, megis Prosiect Helix, Cywain, y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd, y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig a'r Gronfa Cadernid Economaidd. Yn weithredol, mae hyn yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn ystwytho'r adnoddau sydd ar gael wrth i gyfleoedd ac anghenion godi, ac yn erbyn ein mesur parhaus o gynnydd yn erbyn cynllun Adfer Covid-19. Mae'r adnoddau sy'n cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd yn fwy na £30 miliwn o gymorth uniongyrchol ac anuniongyrchol i'r diwydiant gydol gweddill oes y Cynllun Datblygu Gwledig.

Rydym yn monitro effaith barhaus y pandemig ac yn ystyried yr achos dros gyllid pellach yn ofalus.

**Argymhelliad 11.**

***Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law ar ganfyddiadau'r asesiad cost ar gyfer cyflawni strategaeth fwyd newydd Llywodraeth Cymru.***

**Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r strategaeth yn nodi ein gweledigaeth a'n cenhadaeth, sut y byddwn yn mesur cynnydd, ac amlinelliad o'r prif feysydd ffocws ar gyfer gweithredu. Mae'r strategaeth yn un hirdymor ac mae'n hyblyg i addasu i amgylchiadau newidiol Covid-19 ac Ymadael â'r UE. Mae hyn yn golygu'n weithredol y bydd Llywodraeth Cymru yn ystwytho adnoddau wrth i gyfleoedd ac anghenion godi, ac yn erbyn ein mesur parhaus ar gyfer cynnydd. Bydd dyraniad adnoddau'n cael ei bennu fel rhan o waith cynllunio cyllideb arferol Llywodraeth Cymru ac ni chaiff ei bennu ar adeg cyhoeddi.

**Argymhelliad 12.**

***Dylai'r Gweinidog barhau i bwyso ar Lywodraeth y DU i ailystyried y fethodoleg ar gyfer pennu cyllid i ddisodli cyllid yr UE ar gyfer cymorth amaethyddol a mynd i'r afael â'r diffyg yn y cyllid ar gyfer 2021-22. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlyniad cyn gynted ag y bo'n ymarferol.***

**Derbyn**

Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi ysgrifennu at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar sawl achlysur yn amlinellu ein pryder difrifol ynghylch y cyllid fferm newydd a gyhoeddwyd yn yr Adolygiad o Wariant, sy'n golygu bod ffermwyr a chymunedau gwledig yng Nghymru ar eu colled o £137 miliwn. Ar 20 Hydref 2020, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ar y cyd â Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i adolygu'r fethodoleg arfaethedig o ddidynnu derbyniadau ymrwymedig yr UE, gan bwysleisio effaith annheg hyn ar draws y Gweinyddiaethau Datganoledig.

Ar 27 Tachwedd, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i adolygu'r penderfyniad i drosglwyddo o golofn i golofn, a gofyn i lefel y cyllid fferm ar gyfer 2020-21 gael ei ddiwygio i gynnwys y £42 miliwn hwn. Cododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd y mater eto mewn cyfarfod gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ym mis Rhagfyr. Cadarnhawyd trwy'r broses Amcangyfrifon Atodol bod y cais am drosglwyddo o golofn i golofn wedi'i wrthod. Mae hyn yn methu â chydnabod bod y penderfyniad i gymryd trosglwyddiad colofn i golofn o 15% ar gyfer datblygu gwledig yn weithdrefnol i fodloni rhwymedigaethau'r UE i'w hysbysu ynghylch cyfran ein cyllideb CAP 2020-21 amgen ddomestig y byddem yn ei dwyn ymlaen i 2021-22 i fuddsoddi mewn datblygu gwledig ehangach.

Ar 21 Rhagfyr cyhoeddais y byddwn yn blaenoriaethu cyllid i ffermwyr, gan adlewyrchu'r straen ychwanegol a roddwyd ar y diwydiant yn sgil Ymadael â'r EU a Covid-19. Bydd cyfanswm y nenfwd taliadau uniongyrchol yn cael ei osod ar £238 miliwn i ddarparu'r un lefel o daliadau uniongyrchol i ffermwyr yn 2021, ag a ddarparwyd yn 2020. Pe bai Llywodraeth y DU wedi disodli cyllid yr UE yn llawn, byddai Cymru wedi bod mewn gwell sefyllfa i fuddsoddi yn ein rhaglen datblygu gwledig ddomestig. Yn awr, byddwn yn blaenoriaethu defnyddio'r cyllid datblygu gwledig cyfyngedig ar gyfer 2021-22 i ddatblygu rhaglen a fydd yn targedu buddsoddiad yn y blynyddoedd i ddod ar Adferiad yn sgil Covid ac Ymadael â'r UE i gefnogi ein cymunedau a'n hamgylchedd gwledig.

Ochr yn ochr â hyn rydym wedi dyrannu £2.6 miliwn yn y Gyllideb Derfynol i gyflwyno dechrau'r rhaglen cymorth fferm newydd a ariennir wedi'r UE ac argymhellion adolygiad BEW, ochr yn ochr â chyflawni'r ymrwymiadau sy'n weddill o dan y cynlluniau presennol a ariennir gan yr UE hyd at 2023.

**Argymhelliad 13.**

***Dylai'r Gweinidog ystyried a oes achos dros arian ychwanegol o fewn cyllideb ehangach Llywodraeth Cymru i wrthbwyso'r diffyg yn y cyllid i ddisodli cyllid yr UE ar gyfer cymorth amaethyddol.***

**Derbyn mewn egwyddor**

Pe bai Llywodraeth y DU wedi gwneud iawn am gyllid yr UE yn llawn, byddai Cymru wedi bod mewn gwell sefyllfa i fuddsoddi yn ein rhaglen datblygu gwledig ddomestig. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio'r cyllid datblygu gwledig cyfyngedig ar gyfer 2021-22 yn awr i ddatblygu rhaglen a fydd yn targedu buddsoddiad yn y dyfodol ar Adferiad yn sgil Covid ac Ymadael â'r UE i gefnogi ein cymunedau a'n hamgylchedd gwledig. Dyrannwyd £2.6 miliwn ychwanegol yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer datblygu gwledig ehangach hefyd.

**Argymhelliad 14.**

***Dylai'r Gweinidog ddarparu mwy o fanylion am:***

- ***y meysydd polisi y mae'n ystyried y gallai bylchau posibl godi ynddynt o ganlyniad i flaenoriaethu cyllid i fynd i'r afael â'r diffyg;***
- ***sut y bydd hyn yn effeithio ar gyflawni yn y meysydd polisi hynny; a'r***
- ***camau y mae'n bwriadu eu cymryd i liniaru hyn.***

**Derbyn**

Fel y dywedais mewn ymateb i Argymhelliad 13, rwy'n blaenoriaethu defnyddio'r cyllid datblygu gwledig cyfyngedig ar gyfer 2021-22 i ddatblygu rhaglen a fydd yn targedu buddsoddiad yn y dyfodol ar Adferiad yn sgil Covid ac Ymadael â'r UE.

Ar 21 Rhagfyr cyhoeddais y byddwn yn blaenoriaethu cyllid i ffermwyr, gan adlewyrchu'r straen ychwanegol a roddwyd ar y diwydiant yn sgil Ymadael â'r EU a Covid-19. Bydd cyfanswm y nenfwd taliadau uniongyrchol yn cael ei osod ar £238 miliwn i ddarparu'r un lefel o daliadau uniongyrchol i ffermwyr yn 2021, ag a ddarparwyd yn 2020. Pe bai Llywodraeth y DU wedi disodli cyllid yr UE yn llawn, byddai Cymru wedi bod mewn gwell sefyllfa i fuddsoddi yn ein rhaglen datblygu gwledig ddomestig. Yn awr, byddwn yn blaenoriaethu defnyddio'r cyllid datblygu gwledig cyfyngedig ar gyfer 2021-22 i ddatblygu rhaglen a fydd yn targedu buddsoddiad yn y blynyddoedd i ddod ar Adferiad yn sgil Covid ac Ymadael â'r UE i gefnogi ein cymunedau a'n hamgylchedd gwledig.

**Argymhelliad 15.**

***Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlynol:***

- ***canlyniad ei thrafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chyllid newydd i wneud iawn am golli incwm TB yr UE; a'r***
- ***cynnydd a wnaed wrth adolygu'r trefniadau iawndal TB, gan gynnwys amserlen ar gyfer ymgynghori ar newidiadau arfaethedig.***

**Derbyn**

**Cyllid amgen**

Ym mis Hydref, ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Canghellor yn nodi ein gofynion ar faterion cyllid ymadael â'r UE cyn yr Adolygiad o Wariant. Rhestrwyd dileu TB Buchol fel maes penodol lle byddem yn ceisio cael cyllid amgen gan Lywodraeth y DU.

Cynhaliwyd yr Adolygiad o Wariant ar 25 Tachwedd 2020. Darparodd Llywodraeth y DU symiau cyfyngedig a llawer is na'r disgwyl o gyllid i gymryd lle rhai rhaglenni a ariannwyd gan yr UE yn flaenorol (e.e. ffermio a physgodfeydd). Ni ddarparwyd unrhyw gyllid amgen penodol ar gyfer dileu TB Buchol i Lywodraeth Cymru (yn yr un modd ag ar gyfer sawl rhaglen arall).

**Adolygiad iawndal TB**

Mae'r adolygiad o iawndal TB wedi'i oedi'n ddiweddar oherwydd diffyg adnoddau staffio yn y tîm a gwrthdaro rhwng blaenoriaethau o ran y cymorth cyfreithiol sydd ar gael. Ein nod yw parhau â'r adolygiad hwn yn ystod tymor nesaf y Cynulliad, ar yr amod bod digon o adnoddau staffio a chyfreithiol ar gael.

**Cyllid TB yr UE**

Derbyniodd Cymru £3-4 miliwn y flwyddyn ar gyfartaledd yn flaenorol mewn cyllid gan yr UE, er bod y swm hwn wedi bod yn gostwng ers blwyddyn ariannol 2019/2020 (yn ymwneud â chynllun dileu TB 2018 ymlaen). Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod opsiynau ariannu amgen posibl gyda Defra. Cawsom £1.59 miliwn ym mis Tachwedd 2020, ac rydym yn disgwyl tua £1.1 miliwn o gyllid TB yr UE ar ddiwedd 2021, mae hyn yn ymwneud â'r hawliad mewn perthynas â chynllun dileu TB 2020. Hwn fydd dyraniad cyllid TB terfynol yr UE a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru.

**Iawndal TB**

Roedd gan flwyddyn ariannol 2019/20 gyllideb o £15.76 miliwn a oedd yn cynnwys dyraniad ychwanegol anghylchol o £6.4 miliwn a gwariant terfynol o £14.90 miliwn, £851 mil o dan y dyraniad. Y gorwariant presennol a ragwelir ar gyfer y gyllideb iawndal TB yw £4.6 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Er bod yr adolygiad o iawndal TB wedi'i ohirio ar hyn o bryd, gallai'r opsiynau a nodwyd ar gyfer datblygu pellach arbed rhwng £2.91 miliwn a £5 miliwn fesul blwyddyn ariannol i Lywodraeth Cymru pe baent yn cael eu gweithredu.

**Argymhelliad 16.**

***Dylai'r Gweinidog egluro lefel y cyllid a ddarperir ar gyfer y prosiect treialu i wella capasiti ar draws gwasanaethau archwilio a gorfodi lles anifeiliaid awdurdodau lleol, gan gynnwys dyraniad y gyllideb ar gyfer 2021-22.***

**Derbyn**

Pennwyd lefel y cyllid ar gyfer Prosiect Gorfodi Awdurdodau Lleol ar £1 miliwn dros dair blwyddyn ariannol gyda'r flwyddyn gyntaf o gyllid yn dechrau yn 2020-21. Yn anffodus, gohiriodd sefyllfa Covid-19 ddechrau'r prosiect ac mae wedi cael effaith sylweddol ar arweinwyr Prosiect Awdurdodau Lleol i ddefnyddio'r gwariant yn llawn yn y flwyddyn ariannol hon. Wedi dweud hynny, maent wedi gwneud cynnydd rhagorol wrth sefydlu cyrsiau hyfforddi pwrpasol ar gyfer swyddogion gorfodi awdurdodau lleol, ledled Cymru; maent wedi gwneud argymhellion ar gyfer diweddaru'r canllawiau gorfodi ategol presennol ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014, yr ymgynghorir arnynt; a dechreuasant edrych ar atebion TG ar gyfer cofrestru, cadw cofnodion a chael gafael ar ddogfennau allweddol yn ystod arolygiadau.

Bydd tanwariant ariannol ar gyfer eleni ond, oherwydd y sefyllfa gyda'r pandemig yn 2020/21, byddwn yn ystyried a all y gwaith gael ei drosglwyddo i bedwaredd flwyddyn ariannol os na allant gyflawni eu hymrwymiadau cyffredinol ar gyfer y prosiect.

**Argymhelliad 17.**

***Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion unrhyw waith sy'n bodoli neu a gynlluniwyd i asesu effaith y prosiect treialu ar alluoedd awdurdodau lleol i orfodi a darparu adnoddau, a chamau gorfodi.***

**Derbyn**

Cynhelir cyfarfodydd misol rheolaidd gydag arweinwyr y prosiect a chynhelir adolygiad o gynnydd yn erbyn y cynllun prosiect yn flynyddol. Mae adolygiad ffurfiol o'r prosiect yn rhan o'r broses a chaiff ei gynnal ar adeg briodol i asesu'r effaith gyffredinol.

**Argymhelliad 18.**

***Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y canlynol pa gyfran o'r incwm sydd wedi'i neilltuo o ffermydd gwynt y mae'n bwriadu ei dyrannu i CNC.***

**Derbyn mewn egwyddor**

Mae datblygu ynni ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru y tu allan i'r Ddeddf Coedwigaeth. O ganlyniad, datblygwyd cytundeb yn wreiddiol rhwng Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Llywodraeth Cymru a oedd yn deillio o Ddeddf Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn galluogi Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CNC bellach) i weithredu fel asiant Llywodraeth Cymru ar gyfer y datblygiadau hyn.

Caiff yr incwm o'r datblygiadau hyn ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru gan y datblygwyr, drwy CNC. Fel ein rheolwyr tir, mae CNC yn cadw costau rhedeg y rhaglen ac yn pasio'r incwm sy'n weddill o ddatblygu ynni ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn ôl i Lywodraeth Cymru. Caiff yr incwm hwn ei ddychwelyd i gronfeydd canolog Llywodraeth Cymru i'w ddyrannu'n unol â blaenoriaethau ehangach Gweinidogion Cymru.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar sut i drin incwm a dderbynnir yn y dyfodol o ynni a gynhyrchir ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

Efallai y bydd angen newid mewn deddfwriaeth ar gyfer unrhyw newidiadau i lefel yr incwm a gedwir gan CNC, ac felly mae'n rhywbeth y mae angen ei drafod yn ehangach.

**Argymhelliad 19.**

***Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar unrhyw asesiad a wneir o'r effaith y bydd atal CNC rhag cario cronfeydd wrth gefn ymlaen yn ei chael ar ei allu i reoli pwysau cyllidebol parhaus, a sut yr ystyriwyd hyn wrth bennu dyraniadau cyllideb CNC yn 2021-22.***

**Derbyn**

Nodir y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael i CNC, a phob corff cyhoeddus, mewn llythyr at swyddogion cyfrifyddu ym mis Gorffennaf 2019 (DAO(19)02). Mae hyn wedi'i roi ar waith i sicrhau bod Llywodraeth Cymru a'i chyrff hyd braich yn cydymffurfio â chanllawiau cyllidebu cyfunol Trysorlys EM.

Terfyn CNC ar gyfer cario arian parod ymlaen ar ddiwedd y flwyddyn yw hyd at 2% o'u cyllideb adnoddau flynyddol at ddibenion cyfalaf gweithio. Mae'r goddefiant hwn o 2% ar gyfer cario drosodd yn berthnasol i holl gyrff hyd braich Llywodraeth Cymru. Bwriad hyn yw osgoi sefyllfa lle mae cyrff cyhoeddus yn dal symiau mawr o arian dros ben, a ystyrir yn ddefnydd aneffeithlon o adnoddau cyhoeddus ac a all arwain at gamreoli ariannol.

Mae effeithiau'r terfyn cario drosodd yn parhau i gael eu trafod gyda CNC gyda'r bwriad o gyfyngu ar ddibyniaeth CNC ar gario arian parod drosodd ar gyfer pwysau cyllidebol parhaus. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig a Chadeirydd a Phrif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau ei fod yn cael ei reoli ar y cyd. Yn ogystal, mae adolygiadau rheolaidd parhaus o ragolygon cyllideb Cyfoeth Naturiol Cymru yn caniatáu i swyddogion drafod gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru a deall yr effeithiau ar gyllidebau presennol a rhai'r dyfodol ac unrhyw fathau eraill o bwysau ariannol y maent yn eu profi.

Ystyriwyd yr holl bwysau cyllidebol a gyflwynwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gydol proses y gyllideb ar gyfer 2021-22 ynghyd â blaenoriaethau ar draws y portffolio yn erbyn setliad cyfyngedig. Bydd Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn parhau i adolygu sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y flwyddyn yn ogystal â gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau ariannol yn unol ag amserlen Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall unrhyw bwysau a goblygiadau posibl o ran y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22.

**Argymhelliad 20.**

***Dylai'r Gweinidog ystyried canfyddiadau'r Pwyllgor hwn yn ei adroddiad Llifogydd yng Nghymru wrth bennu cyllid llifogydd CNC yn 2021-22. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ôl gwneud penderfyniad ar ariannu llifogydd.***

**Derbyn**

Bydd argymhellion yr adroddiad yn cael eu hystyried wrth bennu cyllidebau ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol. Rydym yn dyrannu cyllid cyfalaf yn seiliedig ar risg i fywyd ledled Cymru gyfan fel y nodir yn ein Strategaeth Genedlaethol. Bydd y Gweinidog yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig y mis nesaf yn nodi dyraniadau cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

Rydym yn buddsoddi cyllid sylweddol eisoes mewn rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd. Er mwyn cefnogi gwaith atgyweirio i asedau sydd wedi'u difrodi yn dilyn llifogydd ym misoedd Rhagfyr ac Ionawr a chynyddu'r Grant Gwaith ar Raddfa Fach, rydym yn darparu £8 miliwn ychwanegol i helpu awdurdodau lleol a CNC i wella a chynnal ein hamddiffynfeydd llifogydd a lleihau'r risg i'n cymunedau.

**Argymhelliad 21.**

***Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddechrau rhaglen waith i ddatblygu ffyrdd eraill o ennyn buddsoddiad, megis o'r sector preifat, i gefnogi cyflawniad camau i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a newid hinsawdd.***

**Derbyn mewn egwyddor**

Mae ffrydiau ariannu newydd fel Cronfa'r Economi Gylchol ar gyfer busnesau yn gweld arian cyfatebol sylweddol yn barod o fuddsoddiad gan y sector preifat o hyd at 65%.

Mae’r her newid hinsawdd yn golygu bod angen i bawb weithredu. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod rheoliadau yn y Senedd i roi Cymru ar y llwybr tuag at sero net, yn unol â chyngor diweddar y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd. Yn eu cyngor i'r DU ac i Gymru, mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn cydnabod, er bod gweithredu gan y Llywodraeth yn hanfodol, fod gan y sector preifat gyfraniad pwysig i'w wneud.

Mae hon hefyd yn thema fawr yng Nghynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (COP26), lle mae un o themâu'r DU yn canolbwyntio'n benodol ar gyllid gan gydnabod bod y newid hirdymor i ddyfodol sero net a dyfodol cadarn yn gofyn am fuddsoddiad a newid digynsail yn y system ariannol fyd-eang.

Dyrannwyd £200,000 i gefnogi'r gwaith o ddatblygu model ariannu cynaliadwy ar gyfer bioamrywiaeth hefyd. Mae fy swyddogion, Cyfoeth Naturiol Cymru a chynrychiolwyr y sector amgylcheddol yn datblygu cynnig, a fydd yn cynnwys sut y gallwn ysgogi buddsoddiad gan y sector preifat yn fwy effeithiol i gefnogi'r newid trawsnewidiol sydd ei angen arnom ar gyfer bioamrywiaeth.

Gallai cyllid llifogydd hefyd elwa ar drosoledd mewn ffynonellau cyllid allanol ac fel argymhelliad yn ein Pwyllgor Strategaeth Genedlaethol newydd ar gyfer Llifogydd ac Erydiad Arfordirol i ystyried ac adrodd yn ôl.

**Argymhelliad 22.**

***Dylai’r Gweinidog egluro’r dyraniad cyllideb yn 2021-22 ar gyfer Natura 2000. Dylai hefyd nodi ei barn ar ba un a yw’n ddigonol i gyflymu’r broses o gyflawni prosiectau wrth i Gymru ddod allan o’r pandemig.***

**Derbyn**

Bydd £14 miliwn o'r pecyn ariannu o ryw £32 miliwn sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer bioamrywiaeth, natur a'r Goedwig Genedlaethol yn cefnogi'r gwaith o adfer safleoedd Natura 2000 a safleoedd gwarchodedig eraill yn uniongyrchol, noddfeydd i'n rhywogaethau a'n cynefinoedd mwyaf gwerthfawr sydd dan fygythiad. Mae gwella cyflwr y rhwydwaith hwn o safleoedd yn hollbwysig o ran creu rhwydweithiau ecolegol cadarn ledled Cymru, gan ddarparu manteision i bobl a busnesau hefyd. Bydd y pecyn cyllid hwn yn ein galluogi i adeiladu ar y prosiectau a’r rhaglenni sydd gennym ar waith i’n helpu i fodloni'n hymrwymiadau cenedlaethol a rhyngwladol mewn perthynas â bioamrywiaeth ac ymdrin â’r argyfwng natur a’r argyfwng hinsawdd, gan sicrhau'r un pryd y bydd ein hadferiad ar ôl Covid yn un gwirioneddol wyrdd.

Rhaid i ni sicrhau ein bod yn adeiladu ar y darpariaethau yr wyf eisoes wedi'u rhoi ar waith i sicrhau bod gan ein rhanddeiliaid, gan gynnwys y cyrff anllywodraethol amgylcheddol, y gallu angenrheidiol i wella o'r pandemig a gwella darpariaeth yn y dyfodol. Bydd y cynllun meithrin gallu ar gyfer y sector amgylcheddol mewn partneriaeth â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn parhau yn 2021/22 a'i nod yw cefnogi'r gwaith o gyflawni drwy wella cydnerthedd ariannol gan leihau'r ddibyniaeth ar gyllid y sector cyhoeddus, a chefnogi datblygiad prosiectau, felly bod llif o brosiectau parod i'w rhoi ar waith pan fydd cyfleoedd ariannu'n codi.

Er mwyn cefnogi'r gwaith o adfer safleoedd Natura ymhellach a datblygu Rhwydweithiau Ecolegol Gadarn rydym yn gweithio gyda CNC i ddatblygu rhaglen aml-flwyddyn ar gyfer ein rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig fel y gellir cyflymu'r ddarpariaeth ymhellach wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig a bod cyllid ar gyfer y dyfodol a mecanweithiau i gyflawni yn cael eu sicrhau.

Os bydd unrhyw symiau canlyniadol yn codi o ddyraniad y DU i ymateb i Covid, gall Llywodraeth Cymru gynyddu'r ddarpariaeth gan ddefnyddio'r mecanweithiau sydd ar waith.

**Argymhelliad 23.**

***Dylai'r Gweinidog egluro a yw canfyddiadau'r Tasglu Adferiad Gwyrdd o ran cefnogi'r sector amgylcheddol wedi dylanwadu ar ddyraniadau 2021-22 a sut. Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i ni ar y mater hwn cyn y cynnig cyllideb blynyddol.***

**Derbyn**

Gwnaed dyraniadau cyllideb mewn ymateb i nifer o argymhellion allweddol yn yr adroddiad gan gynnwys cryfhau cydnerthedd y sector amgylcheddol, gwella cydweithredu, datblygu mecanweithiau ariannu arloesol a rhaglenni aml-flwyddyn i ganiatáu ar gyfer cynllunio gwell. Bydd y cynllun meithrin gallu ar gyfer y sector amgylcheddol mewn partneriaeth â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn parhau yn 2021/22 a'i nod yw cefnogi'r gwaith o gyflawni drwy wella cydnerthedd ariannol drwy leihau'r ddibyniaeth ar gyllid y sector cyhoeddus, a chefnogi datblygiad prosiectau, felly bod llif o brosiectau parod i'w rhoi ar waith pan fydd cyfleoedd ariannu'n codi. Bydd y cynllun yn ariannu prosiectau sy'n cefnogi mwy o gydweithredu hefyd, yn enwedig rhwng cyrff anllywodraethol amgylcheddol llai, ac yn cynyddu amrywiaeth ymhlith gweithwyr cyflogedig, gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr.
Dyrannwyd £200,000 i gefnogi'r gwaith o ddatblygu model ariannu cynaliadwy ar gyfer bioamrywiaeth. Mae fy swyddogion, Cyfoeth Naturiol Cymru a chynrychiolwyr y sector amgylcheddol yn datblygu cynnig, a fydd yn cynnwys sut y gallwn ysgogi buddsoddiad gan y sector preifat yn fwy effeithiol i gefnogi'r newid trawsnewidiol sydd ei angen arnom ar gyfer bioamrywiaeth.
Dyrannwyd £100,000 hefyd i gynllunio rhaglen tair blynedd ar gyfer y rhwydwaith safleoedd gwarchodedig gyda'r nod o greu rhwydweithiau ecolegol cydnerth ledled Cymru. Bydd sefydlu rhaglen aml-flwyddyn gydag amcanion clir yn galluogi'r sector amgylcheddol i gynllunio'n fwy effeithiol a datblygu a chadw'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i weithredu prosiectau.
Bydd cyllidebau'n deillio o'r Is-adran, fodd bynnag, pe bai unrhyw symiau canlyniadol yn deillio o ddyraniad y DU i ymateb i Covid gall Llywodraeth Cymru gynyddu'r ddarpariaeth gan ddefnyddio'r mecanweithiau sydd ar waith.

**Argymhelliad 24.**

***Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion am ddyraniad y gyllideb yn 2021-22 ar gyfer rheolaeth a chadwraeth forol, a sut y caiff ei ddefnyddio.***

**Derbyn**

Bydd dyraniadau cyllidebol ar gyfer rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chadwraeth ehangach yn gyfwerth â chyllideb y llynedd ac ni ragwelir unrhyw ostyngiadau. Bydd rhaglenni gwaith yn cefnogi ac yn ategu gweithgareddau rheoli morol ehangach Llywodraeth Cymru ymhellach. Neilltuwyd y gyllideb i'w hariannu;

- Camau gweithredu presennol a newydd sy'n deillio o'r alwad gyfredol am gamau rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig 2021-22
- Gweithgareddau gwyddoniaeth a thystiolaeth sy'n ymwneud â'r posibilrwydd o ddynodi rhagor o Barthau Cadwraeth Morol yng Nghymru

- Adnoddau cyfathrebu i gefnogi ymgysylltu ehangach â rhanddeiliaid fel rhan o raglen cwblhau rhwydwaith yr Ardaloedd Morol Gwarchodedig
- Prosiectau bioamrywiaeth ehangach fel morfilod wedi tirio, ymchwiliadau i faelgwn a sbwriel morol.

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol pellach. Bydd cyllidebau'n deillio o'r Is-adran.

**Argymhelliad 25.**

***Dylai'r Gweinidog fyfyrio ar ei phenderfyniad blaenorol i beidio ag ymestyn y Grant Cymorth Pysgodfeydd, o ystyried y dystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor hwn nad yw ymyriadau cymorth ariannol cyfredol yn diwallu anghenion y diwydiant.***

**Derbyn**

Roedd Grant Pysgodfeydd Cymru ym mis Ebrill 2020 yn cynorthwyo busnesau pysgota gweithredol gyda'u costau sefydlog. Roeddwn i'n teimlo bod hyn yn angenrheidiol oherwydd bod y busnesau hynny wedi dioddef aflonyddwch uniongyrchol acíwt i'r galw am eu cynnyrch a'u gallu i fasnachu yn dilyn y mesurau iechyd cyhoeddus COVID-19 angenrheidiol. Nid oes gan lawer o fusnesau pysgota yng Nghymru safleoedd a'u prif gyfalaf yw eu cychod felly mae ganddynt gostau parhaus ac nid oeddent yn gymwys i gael cymorth gan Gronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru. Felly, teimlwn ei bod yn briodol ymyrryd yn y ffordd wedi'i thargedu hon.

Cadwyd golwg fanwl a chyson ar iechyd y sector pysgota a bwyd môr ers mis Mawrth 2020. Roedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill y DU ar Gynllun Ymyrraeth ar gyfer y Gaeaf pe bai angen cymorth pellach o ganlyniad i ddiwedd Cyfnod Gweithredu Ymadael â'r UE a'r trydydd cyfnod o gyfyngiadau symud cenedlaethol. Fodd bynnag, ym mis Ionawr, penderfynodd Llywodraeth y DU ganolbwyntio ar gynllun ar wahân a weinyddir gan Lywodraeth y DU i sicrhau bod £23 miliwn ar gael i ddigolledu allforwyr a all ddangos eu bod ar eu colled o ganlyniad i ddiwedd Cyfnod Gweithredu Ymadael â'r UE.

Rwyf wedi pwyso ar Lywodraeth y DU i ymestyn cwmpas yr iawndal allforio i gynnwys y sector pysgodfeydd a dyframaethu. Mae'r cynllun wedi'i ehangu bellach, sydd i'w groesawu, er ei bod yn anffodus ei bod wedi cymryd chwe wythnos i Lywodraeth y DU gymryd y camau hyn a'm gobaith yw y bydd y cymorth hwn yn canfod y busnesau hynny sydd mewn angen cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

Mae'n destun gofid hefyd nad yw Llywodraeth bresennol y DU yn dangos unrhyw barch at y setliad datganoli wrth ddewis gweinyddu'r cynllun yn uniongyrchol, yn hytrach na chyllido yn y ffordd arferol gydag ôl-ddilyniant perthnasol i'r gweinyddiaethau datganoledig.

**Argymhelliad 26.**

***Dylai'r Gweinidog egluro effaith yr oedi diweddaraf yn hynt Bil yr Amgylchedd y DU trwy Senedd y DU ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Dychwelyd Ernes a'r Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu plastig. Dylai'r Gweinidog hefyd osod cynigion ar gyfer gweithredu'r Cynllun Dychwelyd Ernes.***

**Derbyn**

Mae'r amserlen ddiwygiedig ar gyfer Bil Amgylchedd y DU yn golygu y disgwylir iddo dderbyn Cydsyniad Brenhinol yr hydref hwn. Nid ydym yn rhagweld y bydd hyn yn effeithio ar yr amserlen ar gyfer gweithredu'r Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer gwastraff deunydd pacio na'r Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer cynwysyddion diodydd. Y rheswm am hyn yw y bydd y gwaith datblygu polisi yn rhedeg ochr yn ochr â thaith y Bil drwy Senedd y DU.

Mae cam nesaf y Cynllun Dychwelyd Ernes yn enghraifft o hyn, a bwriedir cynnal yr ymgynghoriad ym mis Mawrth 2021. Bydd yr ymgynghoriad yn cyflwyno'r cynigion ar gyfer gweithredu'r Cynllun Dychwelyd Ernes ac ochr yn ochr â hyn bwriedir cynnal ymgynghoriad hefyd i amlinellu'r cynigion ar y cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr.

**Argymhelliad 27.**

***Dylai'r Gweinidog ddarparu manylion unrhyw asesiad a wneir o'r costau gweithredu ar gyfer y Cynllun Dychwelyd Ernes a'r Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer pecynnu plastig. Dylai hefyd adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â chyllid yn y dyfodol i gefnogi gweithrediad y cynlluniau hyn.***

**Derbyn**

Bydd adroddiad Asesiad Effaith wedi'i ddiweddaru yn cyd-fynd â'r ymgynghoriadau sydd ar y gweill ar y naill gynllun a'r llall. Mae hyn yn adeiladu ar yr asesiadau effaith a gwblhawyd ar gyfer yr ymgynghoriadau cyntaf yn 2019 a bydd yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer gweithredu'r ddau gynllun a'u gweithrediad parhaus. Yr hyn sy'n bwysig yw bod y ddau gynllun yn gweithredu'r egwyddor mai'r cynhyrchydd sy'n talu, gyda'r gofyniad i gynhyrchwyr dalu costau net llawn rheoli'r deunyddiau hyn pan fyddant wedi dod i ddiwedd eu hoes. Yn amodol ar yr ymgynghoriad, os cytunir ar y dull a amlinellir, byddwn yn gweithio gyda llywodraethau eraill y DU i gytuno ar y mecanwaith ar gyfer dyrannu llif teg o arian i Gymru.

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/00262/21

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

seneddccera@senedd.wales

2nd Mawrth 2021

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Chwefror 2021 yn rhoi gwybod yn ffurfiol i mi am fwriad y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad ar y pecyn o Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd a osodwyd ar 9 Chwefror 2021. Nodaf bryder y Pwyllgor ynglŷn â'r amserlen ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Yn dilyn fy llythyr atoch ym mis Mehefin 2020 (ein cyf: MA/LG/0821/20), byddwch yn ymwybodol o'r oedi anochel wrth gyhoeddi cyngor y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd, sydd ei angen i lywio datblygiad y Rheoliadau hyn. Er gwaethaf yr oedi hwn, mae'r Rheoliadau ar gael i graffu arnynt ar gyfer yr 20 diwrnod eistedd safonol rhwng cael eu gosod a'r ddadl. Mae'r ddadl wedi'i threfnu ar hyn o bryd ar gyfer 9 Mawrth 2021 gyda'r nod o ddod â'r Rheoliadau i rym, yn amodol ar ewyllys y Senedd, ar 12 Mawrth 2021.

Yn dilyn eich llythyr a'ch cais i alluogi'r Pwyllgor i graffu a chyflwyno adroddiad, rwyf wedi cytuno i symud y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Rheoliadau i 16 Mawrth 2021. Rwy'n siŵr y bydd y Pwyllgor yn cefnogi'r cam hwn, ond bydd yr Aelodau am nodi y bydd hyn, o reidrwydd, yn effeithio ar ddyddiad dod i rym arfaethedig y Rheoliadau, a fydd yn symud i 19 Mawrth 2021. Caiff y newid hwn ei wneud ar ôl i'r Rheoliadau gael eu cymeradwyo gan y Senedd.

Mae fy swyddogion ar gael i ddarparu briff technegol ar y Rheoliadau i staff eich Pwyllgor, fel y darparwyd ganddynt yn 2018.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn Gywir,

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/LG0864/21

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor dros Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

2 Mawrth 2021

Annwyl Mike

Heddiw fe wnes i ddatganiad yn y Senedd ynglŷn â'r cynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Hoffwn gofnodi fy niolch diffuant i chi a'r Pwyllgor newid yn yr hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig am y gwaith rhagorol a wnaed yn ystod yr ymchwiliad i dlodi tanwydd yng Nghymru. Mae'r argymhellion a gyhoeddwyd ym mis Ebrill wedi darparu asgwrn cefn y cynllun newydd yr wyf ar fin ei gyhoeddi.

Un o'r argymhellion a wnaed gan y pwyllgor oedd y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu diffiniad mwy priodol o dlodi tanwydd: un sy'n adlewyrchu'n fwy cywir brofiad aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru. Fel ei man cychwyn, awgrymodd y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y dull 'incwm gweddilliol', gan ddysgu gwersi o Loegr a'r Alban. Dywedodd yr argymhelliad y dylid gwneud y gwaith hwn ar y cyd â rhanddeiliaid perthnasol a'i gwblhau o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad.

Yn fy ymateb, cytunais y dylai'r diffiniad a'r mesurau a ddefnyddir i asesu tlodi tanwydd fod yn briodol i bobl Cymru. Mae angen i unrhyw fesur ystyried natur dros dro tlodi tanwydd. Cytunais i roi ystyriaeth bellach i'r mater, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun newydd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Yn yr ymgynghoriad, gofynnwyd i randdeiliaid a ddylid parhau i ddefnyddio'r diffiniad presennol o dlodi tanwydd, neu a ddylid mabwysiadu diffiniad amgen.

Mae Deddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000 yn diffinio bod person i'w ystyried yn fyw "mewn tlodi tanwydd" os yw aelod o aelwyd yn byw ar incwm is mewn cartref na ellir ei gadw'n gynnes am gost resymol. Mae'r diffiniad hwn yn parhau i fod yn berthnasol i Gymru a Lloegr ond nid i'r Alban.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

I'r gwrthwyneb, mae Adran 2 o Ddeddf Tlodi Tanwydd (Targedau, Diffiniad a Strategaeth) (Yr Alban) 2019 bellach yn diffinio aelwyd yn yr Alban fel un sydd mewn tlodi tanwydd os, ar ôl talu ei chostau tai, y byddai angen mwy na 10% o'i hincwm net sy'n weddill i dalu am ei hanghenion tanwydd rhesymol, ac ar ôl talu am ei hanghenion tanwydd rhesymol, ei chostau gofal plant a'i chostau tai, mae hyn wedyn yn golygu na all yr aelwyd gynnal safon byw dderbyniol. Gelwir y dull hwn yn ddull incwm gweddilliol.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn ein hymgynghoriad yn cytuno y dylid cadw'r diffiniad presennol o dlodi tanwydd yn Neddf 2000 yng Nghymru, tra awgrymodd 16% o ymatebwyr ddewis arall, megis y dylid mabwysiadu diffiniad yr Alban. Awgrymodd cefnogwyr ei fod yn parhau'n berthnasol a'i fod yn haws ei gyfathrebu a'i ddeall. Fodd bynnag, roedd nodyn o rybudd. **"Rhaid i'r diffiniad sicrhau nad yw'n seiliedig ar daliadau ynni gwirioneddol oherwydd yr aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd a all fod dan wres eu cartref ac sydd felly'n atal eu hunain rhag talu mwy na 10% (er y dylent, mewn gwirionedd, fod yn gwario mwy i allu bodloni eu gofynion gwresogi)".** Roedd y risg hon o dangynhesu, hunan-ddatgysylltu a hunan-d dogni yn thema barhaus drwy gydol yr ymarfer ymgynghori.

Rwyf wedi ystyried yr argymhelliad a wnaed gan y pwyllgor a'r sylwadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyhoeddus. Rwy'n derbyn bod manteision ac anfanteision pa fesur bynnag a fabwysiedir. Ar y cyfan ac wrth ystyried yr holl sylwadau a gyflwynodd imi ar y pwynt hwn, yr wyf wedi cwblhau'r diffiniad presennol o dlodi tanwydd a ddefnyddir mewn perthynas â Chymru.

Cofion



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL**

**Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu)**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil gan Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu sydd o fewn y cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) ger bron Tŷ’r Cyffredin ar 5 Chwefror 2020. Fe welwch y Bil yn: https://services.parliament.uk/Bills/2019-20/animalwelfaMesentencing/documents.html

3. Cyflwynwyd bil tebyg, y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu a Chydnabod Dedfrydu), ger bron Senedd y DU ym mis Mehefin 2019 ond disgynnodd yn sgil addoedi’r Senedd ar 8 Hydref 2019. Cyflwynwyd y Bil unwaith eto ar 15 Hydref 2019, ond disgynnodd y Bil hwnnw hefyd pan alwyd Etholiad Cyffredinol mis Rhagfyr 2019.

4. Mae'r Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) yn Fil Aelod Preifat a gefnogir gan Lywodraeth y DU ac a noddir gan Chris Loder AS. Mae hanfodion y Bil yn union yr un peth â’r Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu a Chydnabod Dedfrydu), y gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar ei gyfer ar 19 Gorffennaf 2019.

## Amcan(ion) y Polisi

5. Amcan datganedig y polisi yw cynyddu’r gosb uchaf am droseddau penodol sy’n ymwneud â chreulondeb i anifeiliaid o chwe mis i bum mlynedd o garchar.

## Crynodeb o’r Bil

6. Mae'r Bil yn cynyddu'r gosb uchaf am droseddau penodol sy'n ymwneud â lles anifeiliaid yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gwneud hynny drwy estyn y gosb uchaf bresennol, a bennir yn adran 32 o'r Ddeddf, o chwe mis a/neu ddirwy ddiderfyn i gosb o bum mlynedd a/neu ddirwy ddiderfyn. Bydd y troseddau hyn felly yn brofadwy, a gellir eu clywed yn Llys yr Ynadon neu yn Llys y Goron.

7. Cyhoeddwyd y cymalau drafft yn y Bil hwn gan Lywodraeth y DU at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus ar 12 Rhagfyr 2017 fel rhan o'r Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu a Chydnabod Dedfrydu). Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Ionawr 2018 a chyhoeddwyd crynodeb o'r ddogfen ymatebion ar 7 Awst 2018. Derbyniodd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

(DEFRA) 9,084 o ymatebion uniongyrchol i'r ymgynghoriad. Roedd 70 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cosbau uchaf newydd. Yn y crynodeb o'r ddogfen ymatebion, ymrwymodd Llywodraeth y DU i gyflwyno'r cymalau dedfrydu mewn Bil ar wahân.

**Darpariaethau'r Bil y mae angen cydsyniad arnynt**

*Cymal 1: Dull y Treial a'r Gosb Uchaf am Droseddau Penodol sy'n ymwneud â Lles Anifeiliaid*

8. Mae Adran 32(1) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn darparu mai 51 wythnos o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn fydd y gosb uchaf am droseddau penodedig penodol.

9. Yn ymarferol, mae'r gosb uchaf wedi'i chapio i 6 mis a/neu ddirwy ddiderfyn. Y rheswm am hyn yw am fod adran 32(5) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 yn nodi, ar gyfer pob trosedd a gyflawnwyd cyn cychwyn adran 281(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, y dylid darllen y cyfeiriad at 51 wythnos o garchar fel cyfeiriad at 6 mis o garchar. Hyd yma, nid yw adran 281(5) wedi ei chychwyn.

10. Mae Cymal 1 o'r Bil yn ceisio diwygio Deddf Lles Anifeiliaid 2006 er mwyn newid uchafswm y gosb am y troseddau canlynol yn unig:

    a. peri dioddefaint diangen (adran 4);
    b. cynnal anffurfiad nad yw'n esempt (adran 5);
    c. tocio cynffon ci ac eithrio pan ganiateir hynny (adran 6(1) a 6(2));
    d. rhoi gwenwyn i anifail (adran 7); a
    e. bod yn gysylltiedig mewn ymladdfa anifeiliaid (adran 8).

11. Cedwir y gosb uchaf bresennol, a amlinellir uchod, os caiff y troseddwr euogfarniad ddiannod. Fodd bynnag, gall troseddwyr sydd wedi'u cael yn euog mewn treial trwy dditiad gosb uwch o hyd at 5 mlynedd o garchar a/neu ddirwy ddiderfyn.

12. Nid oes gan Lysoedd Ynadon y pŵer i roi cosb o fwy na chwe mis. Roedd Adran 154(1) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn cynyddu uchafswm y ddedfryd o garchar y gallai llys ynadon ei rhoi i 12 mis. Caiff adran 154(1) ei diddymu gan Ddeddf Dedfrydu 2020 ond mae darpariaeth gyfatebol wedi'i chynnwys ym mharagraff 24(2) o Atodlen 22 i Ddeddf 2020. Bydd adran 32(4A) o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a fewnosodir gan gymal 1(3) o'r Bil yn sicrhau bod y cosbau priodol ar gael i lysoedd ynadon hyd nes y bydd y darpariaethau perthnasol yn cychwyn.

*Cymal 2: Cwmpas, Cychwyn a Theitl Byr*

13. Mae Cymal 2 o'r Bil yn darparu i'r Bil gwmpasu Cymru a Lloegr ac y daw'r Bil i rym ddeufis ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Mae'r cymal hwn yn nodi nad yw'r diwygiadau hyn yn gymwys i droseddau a gyflawnwyd cyn i ddarpariaethau'r Bil ddod i rym. Mae'r cymal hefyd yn pennu teitl byr y Bil.

14. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau yng Nghymalau 1 a 2 o'r Bil am eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ac nad ydynt yn ymwneud â materion a gadwyd yn ôl yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 am eu bod yn ymwneud ag iechyd a lles anifeiliaid.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu)**

15. Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn am resymau amseru a chydlynu. Mae darpariaethau'r Bil yn cyd-fynd ag amcanion polisi Llywodraeth Cymru o ran hybu lles anifeiliaid. Bydd bwrw ymlaen â hwy yn y Bil DU hwn yn golygu y gellir cosbi'r troseddau creulondeb mwyaf difrifol a gyflawnir i anifeiliaid yng Nghymru ar yr un lefel â'r rhai yn Lloegr.

**Goblygiadau ariannol**

16. Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na Senedd Cymru o ganlyniad i'r Bil hwn.

**Casgliad**

17. Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol delio â'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn gan y byddai'n sicrhau bod trefn ddedfrydu gyson yng Nghymru a Lloegr ac y byddai'n rhoi eglurder i'r asiantaethau gorfodi, y Llysoedd ac i'r cyhoedd.

**Lesley Griffiths AC**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Chwefror 2021**